

# Cefnogi Myfyrwyr â Nam ar eu Clyw wrth Ddysgu o Bell

Mae'r Gwasanaethau Anabledd wedi cysylltu â phob myfyriwr sydd wedi cofrestru gyda ni sydd ag amhariad synhwyrdd a byddant yn diweddarau'r Cynlluniau Cefnogi Dysgu Personol yn unol â hynny. Serch hynny, mae'r canllawiau canlynol yn arferion cynhwysol da i bob myfyriwr (p'un a ydynt wedi cofrestru gyda'r Gwasanaethau Anabledd ai peidio), a byddant yn cefnogi myfyrwyr wrth i ni ddiweddarau Cynlluniau Cefnogi Dysgu Personol i adlewyrchu'r newid i Addysgu a Dysgu o Bell.

## Mae cyfathrebu'n bwysig:

- Dylai darlithwyr gynnal sesiynau trafod rheolaidd gyda myfyrwyr â nam ar eu clyw i drafod eu profiad o weithio o bell.
- Sicrhau bod myfyrwyr wedi deall yr holl ddysgu o bell / addysgu ar-lein yn llawn.
- Sicrhau y gall myfyrwyr gael mynediad i sesiynau tiwtorial h.y. gall staff prifysgol siarad â'u myfyrwyr trwy sgysiau testun (h.y. sgwrs *Teams*) yn hytrach na dibynnu ar fideo neu ffôn. Gallai hyn fod ychydig yn arafach na sgwrs lafar, ond mae'n sicrhau bod myfyrwyr â nam ar eu clyw â mynediad i'r wybodaeth, ac mae'n addasiad rhesymol.
- Rhoi'r gallu i fyfyrwyr ofyn cwestiynau yn eu hoff fformat.
- Wrth ddefnyddio fideo gwneud yn siŵr bod y wyneb yn eglur i'r camera i gynorthwyo myfyrwyr sy'n dibynnu ar ddarllen gwefusau i ategu'r hyn maen nhw wedi'i glywed.
- Sicrhau bod gwaith grŵp yn cael ei wneud o lwyfan y gall myfyrwyr â nam ar eu clyw gael mynediad ato.
- Ni fydd gan bob myfyriwr â nam ar eu clyw'r un gofynion mynediad â'i gilydd. Mae'n hanfodol bod staff academaidd yn cynnal trafodaethau gyda myfyrwyr unigol.
- Dylai academyddion ddisgwyl cynnydd yn nifer y ceisiadau am eglurder - ar draws yr holl ystod o fyfyrwyr, ond yn arbennig gan fyfyrwyr â Chynlluniau Cefnogi Dysgu Personol

## Rhoi Gwybodaeth o Fewn Cyrraedd Pawb:

- Defnyddiwch Gymraeg neu Saesneg Clir
- Defnyddiwch bwyntiau bwled i gadw popeth yn syml
- Defnyddiwch Benawdau a Rhagarweiniadau
- Cyfeiriwch at adnoddau eraill defnyddiol, e.e. o ffynonellau mewnol, sydd o bosib eisoes yn cynnwys isdeitlau etc.

Bydd y dulliau addysgu uchod yn arwain at arferion addysgu mwy cynhwysol, a byddant o fudd i bob myfyriwr.